Gwasanaethu Plant yn y Dyfodol Digidol

Cwestiynau

1. A ydych yn cytuno â'n barn y bydd gwasanaeth i Blant yn gwella'r gwasanaeth cyhoeddus a gynigir yn y Gymraeg i Blant?

2. A ydych yn credu y byddai darparwr trydydd parti yn fodlon darparu gwasanaeth teledu Cymraeg i Blant o natur debyg i'r un a amlinellwyd uchod, ar sail masnachol?

3. A allwch chi feddwl am randdalwyr allweddol nas cynhwyswyd yn Atodiad A?

4. A oes gennych unrhyw sylwadau / beth yw'ch safbwyntiau am yr oriau darlledu a gynigir a'n cynulleidfaoedd targed?

5. Yn eich barn chi, beth fyddai'r nodweddion allweddol pwysicaf ar gyfer gwasanaethau teledu i Blant a ddarparir gan S4C?

6. A oes gennych unrhyw sylwadau am yr opsiynau a nodwyd ym mharagraff 4 ac yn arbennig, y dewis rhwng opsiwn 1 a 2? A oes gennych unrhyw sylwadau eraill yr hoffech i ni eu hystyried am y mater hwn?

7. A oes gennych unrhyw sylwadau eraill yr hoffech i ni eu hystyried o ran yr Ymgynghoriad hwn ynghylch sianel deledu Gymraeg newydd i Blant?

Ymatebion

Enw Mrs Ruth Sanders

C1 Ydw

C2 Ydw

C3 Na

C4 Byddai'n dda cael rhaglenni yn ystod y dydd y gellir eu defnyddio o fewn gwersi - does fawr ddim fideos sy'n addas i'r arddegau y gellir eu defnyddio gyda dysgwyr, ar wahân i Pam Fi Duw? (nad ydyn ni yn ei ddefnyddio mwyach)

C5 Yn berthnasol i fywyd bob dydd, oriau cyfleus, cysylltiadau rhwng rhaglenni a safleoedd gwe, amrywiaeth o acenion deheuol a gogleddol.

C6 Dim sylw

C7 Yn sicr, rhaid cael rhaglenni i ddysgwyr y Gymraeg - rydyn ni'n annog ein myfyrwyr i wylio S4C, ond dim ond Pobol y Cwm, gydag is-deitlau, maen nhw'n ei wylio, fe ymddengys. Mewn llawer o raglenni eraill mae'r actorion yn siarad yn rhy gyflym, ac mae'r disgyblion yn difodd y teledu, a dydyn nhw ddim yn gwylio eto. Os ydyn ni am i'r iaith Gymraeg ddatblygu, mae'n rhaid inni gwrdd ag anghenion Cymry ail iaith.

· _ · _ · _ · _ · _ ·

Enw Ifana Savill

C1 Ydw.

C2 Ydw.

C3 Na

C4 Angen bod rhaglenni blant bach pan ddônt yn ôl o'r ysgol hy cyn Planed Plant. Angen bod Ysgolion yn gallu gwylio Planed Plant Bach- yr amser darlledu presennol yn anhwylus iddynt. Nifer sylweddol wedi dweud hyn wrthym.

C5 Angen rhaglenni teuluol sydd yn pontio plant ac oedolion. Gan fod Pobl y Cwm yn awr yn llawer mwy "caled" does dim fel hyn ar y sianel ar hyn o bryd. Rownd a Rownd yw'r peth agosaf ond angen rhywbeth mwy ysgafn ee Mr Bean

C6 Rhagor a ddrama i blant. Mwy o gysylltiad gyda'r byd llyfrau "Darllen 'Da Fi" yn wych. Cyflwyno'r goreuon i blant bach.

C7 Angen balans rhwng rhaglenni gwreiddiol a rhaglenni prynu i mewn yn enwedig i blant bach. Dim gormod o animeiddio. Angen iddynt feddwl fod y sianel yn perthyn iddyn nhw.

· _ · _ · _ · _ · _ ·

Enw Heather Simpson

C1 Ydw. Mae angen i blant ysgol wybod fod y Gymraeg yn normal ymhob agwedd ar fywyd. Maen nhw'n colli'r rhaglenni pan fônt yn yr ysgol.

C2 Nac ydw. Ddim yn sicr bod digon o gwmnïau yn gweithredu yn y Gymraeg i wario arian ar hysbysebion.

C3 Na. Alla i ddim meddwl am rai nad ydych chi eisoes wedi'u cynnwys.

C4 Pwysig cael rhaglenni i blant bach (4-7) ar gael rhwng 3:30 a thua 4:30 ac wedyn plant hyn (7-12) ar ôl hynny.

C5 O ansawdd uchel, fel y mae Planed Plant Bach nawr.

C6 Angen rhaglenni ar gyfer plant (4-7) cyn 6pm gan na fydd y mwyafrif ohonynt yn gwylio ar ôl hyn. Mae angen i'r gwasanaeth fod yno bob dydd, neu bydd y plant yn gwylio sianeli sydd yno bob dydd. Gallech neilltuo amser i hyn ar S4C gan y bydd plant hyn ac oedolion yn gallu deall newidiadau i'r amserlen.

C7 Dylai helpu pobl ifainc i ddatblygu'u hiaith wrth iddyn nhw dyfu.

· _ · _ · _ · _ · _ ·

Enw Sian Teagle

C1 Ydw. Mae fy mhlant i yn drist pan does dim cyfle i gwylio'r teledu yn y Gymraeg. Mae'r rhaglenni sydd yn addas iddyn nhw ddim yn cael ei darlledu ar ôl ysgol neu peth cyntaf yn y bore. Fydd ên grêt cael Rhaglenni Gymraeg yn addas i llawer o oedrannau, fel sydd gan cbebbies, cbbc ac yn y blaen. Mae'n drist bod yr aeth Gymraeg yn cymryd set gefn unwaith eto!!

C2 Ydw

C3 Na

C4 Dydy'r oriau darlledu ddim yn addas i blant ar hyn o bryd. Mae pethau i blant bach amser cinio, mae rhai fydd yn hoffi gwylio hyn yn yr ysgol neu yn cael cinio!

C5 Rhaid i mi ddweud yn anffodus bydd e'n well i'r Cymru edrych ar sut mae'r Saeson yn ei wneud - mae ei syniad nhw o cbeebies, cbbc ac yn y blaen yn grêt os ar gael yn y Gymraeg.

C6 Dim sylw

C7 Mae yna digon o bobl ifanc sydd a diddordeb i weithio yn y cyfryngau. Bydd ên neis i weld gwynebau newydd, ddim yr un rhai tro ar ôl tro ar ôl tro. Neu hyd yn oed dod a rhai o'r hen presenters nol. Hefyd mae pobl y de yn siarad Cymraeg, pam mae'r 'presenters' yma fel arfer yn swnio fel ei bod i gyd yn dod o'r gogledd!!!

· _ · _ · _ · _ · _ ·

Enw Elly Thomas

C1 Ydw

C2 Dwi ddim yn gwybod. Mae'n dibynnu ar faint y gynulleidfa botensial. Gan fod y Gymraeg yn iaith leiafrifol o hyd yng Nghymru, sawl cwmni fyddai'n dewis hysbysebu ynddi? Does gen i ddim digon o wybodaeth i gynnig sylw.

C3 Na

C4 Dwi'n credu bod eich syniad yn ardderchog. Byddai'n well gen i petai fy mhlant i (4 ac 16 mis) yn gwylio rhaglenni Cymraeg. Ond oherwydd eu hoedran, dim ond cartwnau maen nhw'n hoffi a does dim llawer ar gael iddynt.

C5 Angen cynnwys yr arddegau yn y broses. Mae'r hyn y mae oedolion yn ei gredu sydd o ddiddordeb i'r arddegau yn aml yn bell ohoni!

C6 Dim sylw

C7 Dim sylw

· _ · _ · _ · _ · _ ·

Enw Meinir Thomas

C1 Ydw. Wrth ystyried y ddarpariaeth sydd ar gael yn Saesneg, byddai cynnig bloc o raglenni yn hytrach nag awr fan hyn a fan draw yn codi proffil ac yn annog cystadleuaeth. Yn ogystal â'r defnydd yn y cartref, byddai yn arf addysgol defnyddiol iawn i ysgolion cyfrwng Cymraeg sy'n denu carfan fawr o ddisgyblion o gefndiroedd di-Gymraeg.

C2 Ydw.

C3 Na

C4 Fel mam i blant o dan 3 oed, diddordeb yn bennaf yn y rhaglenni i blant iau. Cytuno yn llwyr â darlledu peth cyntaf yn y bore. Cynigiaf hefyd rhai oriau ar ddiwedd y prynhawn hefyd yn syth ar ôl dychwelyd o'r ysgol. Planed Plant bach ar amser anaddas ar hyn o bryd (amser cinio) a'r oriau darlledu yn ystod gwyliau (ben bore) yn ddelfrydol. Syniad da cael Planed Plant yn dilyn Planed Plant Bach fel bod y plant iau yn ymwybodol bod dilyniant. Beth am raglen tebyg i Uned 5 ar fore Sadwrn?

C5 Safon o ran y cynhyrchu. Amrywiaeth h.y. animeiddio a chyflwynwyr. Iaith raenus gan fod y rhaglenni yn batrwm iaith i Gymry Cymraeg a di-Gymraeg.

C6 Os am anelu at gynulleidfa y dyfodol, byddwn yn awgrymu darlledu cymaint â phosib o raglenni plant.

C7 Dim sylw

· _ · _ · _ · _ · _ ·

Enw Richard Thomas

C1 Ydw

C2 Nac ydw. Efallai y byddai'n bosibl iddynt ddarparu'r gwasanaeth gyda llawer iawn o hysbysebion, ond nid hyn fyddai fy newis i. Mae fy mhlant i yn gwylio Cbeebies yn anad dim ar y foment, ac mae'r diffyg hysbysebu yn un o'r rhesymau pam nad ydw i'n gwarafun iddynt wneud hynny.

C3 Dim sylw

C4 Darparu rhaglenni ar gyfer plant oed cyn ysgol rhwng 7-9 am, o bosib 12.30- 2pm ac yn gynnar yn y prynhawn, dweder 3.30- 6pm ar ddyddiau'r wythnos fyddai'r lleiafswm derbyniol. Efallai y byddai'n bosib cyfuno hyn gyda darllediadau byrrach o fusnes Llywodraeth y Cynulliad (Er fy mod, yn bersonol, yn cwestiynu perthnasedd darlledu busnes y Llywodraeth). Rwy'n derbyn yr hyn yr ydych chi'n ei ddweud am yr angen i ddarparu rhaglenni i'r arddegau a'r plant sy'n ifancach na hynny ar wahân, ac yn cefnogi hyn. Tra ei bod hi'n bosibl dangos rhaglenni i'r arddegau ar ôl 6pm ar y sianel a arferai ddangos rhaglenni i blant cyn oed ysgol, byddai hyn yn dal i olygu prinder darpariaeth dros y penwythnos, pan fydd pob un o'r tri gr□p oedran yn debygol o eisiau gwylio.

C5 Mwy o oriau darlledu, gyda llwyfan ac amserlen clir; rhaglenni perthnasol yn ymdrin â materion sy'n bwysig iddyn nhw. Bydden i heyd yn hoffi gwylio rhaglenni sydd â chynnyrch chwaraeon a gweithgareddau awyr agored er mwyn hybu diddordeb yn y meysydd hyn (gan 'mod i'n poeni bod y boblogaeth yn llai gweithredol yn gorfforol, pwysau yn codi ac mae hyn yn niweidio iechyd).

C6 Gwell gennyf opsiwn 1

C7 Dim arall, heblaw fy mod yn credu ei fod yn syniad da iawn i gynyddu'r ddarpariaeth i blant. Rwy'n sicr fod y ffaith bod fy mhlant 3 a 4 oed yn gallu gwylio rhaglenni Saesneg ar unrhyw bryd yn eu hannog i siarad Saesneg yn hytrach na Chymraeg. Rwy'n sicr y byddai cynyddu'r oriau darlledu yn eu gwneud yn fwy parod i dderbyn yr iaith Gymraeg. Er nad ydw i'n rhugl yn yr iaith rwy'n siarad Cymraeg i'r plant, a nhwythau yn ateb yn Saesneg, ac mae'r un peth yn digwydd mewn teuluoedd sydd yn rhugl eu Cymraeg. Bydd y diwylliant teledu Cymraeg i blant wastad yn llai na'r ddarpariaeth Saesneg, ond bydd mwy o raglenni Cymraeg yn helpu.

·_·_·_·_·_·

Enw Thomas

C1 Ydw

C2 Ydw

C3 Dim sylw

C4 Dim sylw

C5 Dim sylw

C6 Dim sylw

C7 Dim sylw

·_·_·_·_·_·

Enw Branwen Thomas

C1 Ydw. Mae angen cymaint ag sy'n bosibl o ddeunyddiau safonol Cymraeg i blant yng Nghymru ar S4C er mwyn creu dilyniant naturiol o Planet Plant Bach i Planed Plant ac ymlaen.

C2 Dim sylw

C3 Dim sylw

C4 Mae fy mab yn 6½. Ar fore dydd Sadwrn a dydd Sul pan mae'n codi byddai rhaglenni Cymraeg ar S4C o 7.00 - 9.00 yn ddelfrydol, fel ag sy'n digwydd yn ystod y gwyliau. Ar hyn o bryd mae'n edrych ar Toodatik ar ITV.

C5 Byddai'n rhaid iddo fod yn safonol, ac yn cymharu yn ffafriol ac yn rhagori ar yr arlwy a geir ar sianeli masnachol eraill sydd ar gael pan nad ydy S4C yn darlledu.

C6 Mae Opsiwn 1 yn well na 2 oherwydd bod y Cynulliad ar hyn o bryd yn cadw at dymhorau ysgol (am rhyw reswm). Pe bai hyn yn newid yn y dyfodol, yna byddai'n rhaid adolygu'r sefyllfa.

C7 Dydw i ddim yn meddwl y dylid cael gwasanaeth teledu 24/7 i blant oherwydd mae hynny'n eu gwneud yn or-ddibynnol ar y teledu, ac yn llesteirio datblygiad mewn meysydd eraill. Beth fyddai'n dda fyddai gwasanaeth i'r ystod oedran ar y penwythnosau sydd cystal â'r safon mewn ieithoedd eraill.

·_·_·_·_·_·

Enw Ian Titherington

C1 Ydw

C2 Ydw

C3 Gallaf

C4 Does dim tystiolaeth yn eich papur eich bod wedi ymgynghori gyda rhieni plant oed cyn-ysgol yn ddigonol.

C5 Amseru a chysondeb y slot.

C6 Dim sylw

C7 Mae fy mab yn 18 mis oed ac fe fydd yn mynd i ysgol Gymraeg. Mae'n mynychu meithrinfa Saesneg gan nad oes un Gymraeg debyg yn yr ardal. Pan yn gwylio'r teledu gyda'n gilydd, does dim opsiwn Cymraeg gan fod y ddau ohonom mewn swyddi amser llawn. Felly dim ond rhwng 7 am ac 8.30am a 5.30pm tan 7pm yr ydyn ni'n gallu darllen llyfrau neu wylio teledu gydag ef. (Neu am adegau o fewn yr amseroedd hynny).

Ar hyn o bryd, mae'n gwylio CBeebies (er mwyn osgoi hysbysebion) ac roedden ni wedi ein cyffroi gan y syniad y byddai Planed Plant Bach ar gael naill ai yn y bore neu ar ôl gwaith, i rieni sy'n gweithio. Mae'n rhyfedd nad ydych yn ystyried plant oed cyn ysgol wrth gynllunio. Bydden i'n ddiolchgar am esboniad o'ch polisi ynghylch cynllunio i blant oed cyn ysgol.

·_·_·_·_·_·

Enw Penri Williams

C1 Ydw. Mae'n bwysig darparu ystod eang o raglenni trwy'r dydd i blant

C2 Nac ydw. Mae gan S4C llawer o brofiad o weithio gyda'i bartneriaid

C3 Na

C4 Mae cystadleuaeth enfawr am sylw plant drwy'r dydd ac mae angen sicrhau fod yr iaith Gymraeg yn cael yr un gwasanaeth a ddarperir i blant yn Saesneg gan y BBC a chyrff eraill

C5 Bod yn fywiog a deniadol. Sicrhau diddordeb plant. Eu hannog i siarad Cymraeg.

C6 Fe ddylai'r BBC darparu gofod i ddarlledu'r Cynulliad gan ryddhau S4C2. Opsiwn 2 ydi'r un mwyaf ymarferol.

Mae angen dal sylw plant o'r munud mae nhw'n dod adref o'r ysgol (tua 3 o'r gloch) ac yn y bore o 7 o'r gloch a thrwy'r penwythnos.

C7 Dim sylw

·_·_·_·_·_·

Enw Wendy Williams

C1 Ydw

C2 Nac ydw

C3 Na

C4 Efallai buasai torri lawr ar yr amser y darlledir o'r Cynulliad i lawr, er mwyn i'r plant meithrin a phlant hyn gael fwy o ddewis o raglenni addysgiadol ar eu cyfer. Efallai cyflwyno rhaglen ysgafn i'r bobl ifanc gael eglurhad o beth sydd mynd ymlaen yn y Senedd er mwyn cynyddu ei diddordeb a'i hymwybyddiaeth mewn materion gwleidyddol ac ati.

C5 Cynhyrchu rhaglenni amrywiol, addysgiadol ac sydd yn hybu defnydd o'r Gymraeg ym mhob agwedd o fywyd. Hefyd creu rhaglen i blant (bob oed) sy'n hybu dysgu Cymraeg- wedi ei anelu at ddysgwyr yn benodol.

C6 Dim sylw

C7 Dim sylw

·_·_·_·_·_·

Enw T J Williams

C1 Ydw. Mae yna angen gref am rhagor o amrywiaeth yn rhaglenni plant yn y Gymraeg i arlwyo i bob oedran. Mae'r cynnwys yn Saesneg (UDA a Lloegr) yn swmpus ac o safon wael yn y fwyafrif heb syniad ar yr effaith mae'n cael ar yr unigolyn.

C2 Ydw. Os ydy o safon fedrwch allforio'r cynnyrch i hybu'r cyllid.

C3 Gallaf. Ehangu'r diwydiant trosglwyddo a creu gwaith, rhoi hwb i potensial creadigol plant yn chwaraeon, celf, ayb . Dangos y ffordd i gyflawni uchelgeision plant.

C4 Bydd cyfle i fod yn fwy hyblyg gyda'r dewis ac arlwy i gwahanol oedran.

C5 Gweled uwchben.

C6 Na

C7 Na

·_·_·_·_·_·

Enw Vivian Parry Williams

C1 Ydw. Yn sgîl yr holl ddarpariaeth sydd ar gyfer plant trwy gyfrwng yr iaith fain, mae'n angenrheidiol cael darpariaeth gyffelyb i blant Cymraeg eu hiaith. Fel taid i bump o blant, o 2-10 oed, gwn y dylanwad y mae gwylio rhaglenni cartwns ac ati trwy gyfrwng Saesneg yn ei gael ar fy wyrion i. Tra bo'r ychydig oriau o ddarlledu tebyg yn y Gymraeg ar hyn o bryd i'w groesawu, y mae'r holl ddewis sydd ar gael yn y Saesneg yn golygu mai troi at raglenni Saesneg wna'r plant yn

amlach na dim. Brysied y dydd y bydd darpariaeth bloc ar gyfer ein plant ni, fel sydd ar gael i blant gweddill y D.U.

C2 Ydw. Waeth gen i petai'r dyn yn y lleuad yn darparu gwasanaeth o'r fath, petai'r cyllid iawn ar gyfer darparu rhaglenni at ddant plant a phobl ifainc Cymru ganddo!

C3 Na. Pa atodiad A?

C4 Fel y nodwyd eisoes, nid yw'n ddigon o bell ffordd, os yw'n ceisio cystadlu â sianelau tebyg eraill.

C5 Sicrhau na fyddai'n rhaid i blant Cymraeg droi at y myrdd o ddewis o raglenni ar eu cyfer ar sianelau eraill.

C6 Opsiwn 2 yn sicr, yn bendant! Ar hyn o bryd, mae'n dyb gen i os oes dyrnaid o bobl Cymru â diddordeb yn yr hyn a drafodir yn y Cynulliad Cenedlaethol. Gwastraff llwyr yw'r sianel hon ar hyn o bryd.

C7 Pwy bynnag fydd yn cyllido gwasanaeth o'r modd, mae'n angen gwneud rhywbeth ar fyrder, os yw 'mhrofiad i o beth mae fy wyrion i yn eu ddewis i wylio ar y teledu yn golygu rhywbeth. Plant yn cael eu magu ar aelwydydd Cymraeg pur, a'u hiaith naturiol yn cael ei lygru'n brysur gydag ymadroddion Eingl-Americanaidd. Brysied y dydd y bydd gwasanaeth hollol Gymraeg dderbyniol ar gael ar gyfer plant a phobl ifainc Cymru, heddiw a fory.

· _ · _ · _ · _ · _ ·

Enw Paul Williams

C1 Ydw. Ond rydym fel teulu yn pryderu ac yn rhwystredig iawn eich bod yn defnyddio termau fel "Cymraeg yn bennaf", a "cyfran sylweddol o'r rhaglenni yn rhaglenni Cymraeg". Be' ar y ddaear mae hyn yn olygu? Fel ydych yn cyfeirio, mae faint fynnir o sianeli a rhaglenni Saesneg ar gael eisoes, a chredwch chi fi, bydd ein plant ni yn dewis aros efo'u ffefrynnau ar Boomerang, Tiny Pop a Nick Junior a.y.b, os nad yw S4C2 yn cynnig adloniant yn Gymraeg iddynt, ac ni fyddwn ni o reidrwydd yn eu hannog i droi at S4C2 ychwaith os taw rhyw lobsgows dwyieithog neu Saesneg a geir am rannau o'r dydd. Plis plîs gochelwch rhag ildio i felltith dwyieithrwydd. Dyna un peth a'm gwylltiodd am ddarllediadau S4C2 o'r cynulliad oedd cael y cyfieithiad Saesneg AR DRAWS unrhyw AC a feiddiodd siarad yn Gymraeg ar lawr y Senedd....aaaaaaaach!

Ta waeth, yn nyddiau technoleg y botwm coch, gellir cael isdeitlau neu gyfieithu i unrhyw iaith, ond da chi cadwch y gwasanaeth newydd yn Gymraeg yn unig.

C2 Ydw. Gwthiais 'YDW' uchod trwy gamgymeriad a methu a'i ddileu. Mewn gwirionedd nid oes gennyf farn ar y mater yma!

C3 Dim sylw

C4 Oriau yn rhesymol o ystyried cyfyngiadau ariannol am wn i.

Er yn falch o weld eich bwriad i ddarlledu 'cyfran sylweddol o..raglenni gwreiddiol', ni welaf ddim o'i le ar ail-ddarlledu hen raglenni (o fewn rheswm, a gyda chyfnod hirfaith rhwng pob ail-ddangosiad!). Rwy'n sicr bod archif anferth o raglenni gwych dros y blynyddoedd felly pam ddim manteisio ar rai o'r goreuon am gyfran o bob slot oedran? Gellid hyrwyddo hyn fel cyfle i rieni gyflwyno'u plant i'r rhaglenni oedd wrth eu boddau hwy flynyddoedd maith yn ol, tra hefyd yn arbed rhywfaint ar gostau cynhyrchu. Neu fel arall, pam ddim ystyried rhedeg hen raglenni trwy'r botwm coch fel gwasanaeth ychwanegol? Ond wedi dweud hyn, rhaid osgoi sefyllfa hurt S4C digidol lle darlledir bron pob rhaglen sawl gwaith yr wythnos.

Nid wyf yn llawn ddeall be mae 'gwreiddiol' yn ei olygu, ond ymysg y rhaglenni mwyaf poblogaidd ar S4C yn ein ty ni yn ddiweddar mae nifer o gartwnau a drosleiswyd i'r Gymraeg fel Tair Slic a Clwb Winx, a Ffi-ffi ac yn y blaen.

C5 Osgoi darlledu rhaglenni Saesneg neu ddwyieithog.

C6 Rydym fel teulu yn ffafrio opsiwn 2, ben ac ysgwydd dros y lleill. Os oes raid dewis rhwng darlledu i blant neu ddarlledu gwleidyddion yn mwydro, yna'r plant ddylai fynd a hi.

Ond beth am hyn fel gwelliant i opsiwn 2 -darlledu gwasanaeth plant newydd di-dor 7 diwrnod yr wythnos, ond yn ychwanegol, darlledu uchafbwyntiau o drafodion y cynulliad ar ôl 9 o'r gloch y nos ar y dyddiau priodol, pan fyddai S4C2 yn segur fel arall. Ac ar nosweithiau eraill rhoi ail-ddarllediadau mynych S4C digidol ymlaen er mwyn rhyddhau'r prif sianel ar gyfer rhywbeth o werth a diddordeb!

C7 Hen bryd ichi ystyried sianel blant. Diolch am y cyfle i ddweud ein dweud, a phob bendith efo'r fenter.

. _ . _ . _ . _ . _ .

Enw Gareth Williams

C1 Ydw. Mae angen darpariaeth mwy cystadleuol i blant yn y Gymraeg er mwyn cystadlu a sianeli digidol Saesneg. Mae'r ddarpariaeth ar hyn o bryd yn rhy bytiog. Byddai'n braf cael y dewis o lif parhaol o raglenni at ddant plant y gellid eu gwylio ar unrhyw adeg o'r dydd.

C2 Ydw

C3 Na

C4 Cytuno a'r amseru sef o 6.00 y bore tan 9 yr hwyr

C5 Amrywiaeth o raglenni difyr yn cynnwys cartwnau, rhaglenni addysgiadol, newyddion i'r ifanc, cwisis, rhaglenni hwyl, cerddoriaeth , rhaglenni dogfen addas am Gymru, y byd, a'r amgylchfyd, rhaglenni crefft, coginio, chwaraeon... bois bach mae'r posibiliadau yn ddiben draw..... Osgoi gormod o ail ddarlledu. Cyflwynwyr ifanc, newydd, bywiog. Dangos bod modd cael gwasanaeth o safon trwy gyfrwng y GYMRAEG 15 awr y dydd. Diogelu patrwm iaith gyfoethog i'r gwyliwr ifanc. Rhaid buddsoddi digon o arian yn y sianel newydd i ddiogelu eu llwyddiant!

C6 Onid yw'n bwysicach meithrin diddordeb y plant yn y Gymraeg a'r sianel na darlledu rhaglenni diflas o'r cynulliad. Camgymeriad fyddai cymysgu rhaglenni i blant gyda darllediadau o'r Cynulliad. Onid oes modd cael 3ydd sianel i'r cynulliad + newyddion neu blethu rhaglen hanner awr am y cynulliad i arlwy S4C 1 ar brynhawn Sul?

C7 Rwy'n si□ y byddai rhieni, plant ac ysgolion wrth eu bodd gydag arlwy arfaethedig gyffrous o'r fath. Cynta gyd gorau gyd!

. _ . _ . _ . _ . _ .

Name Iona Williams

C1 Ydw

C2 Nac ydw

C3 Dim sylw

C4 Bydd yn ardderchog cael teledu i blant am gyfnodau hirach (yn enwedig cyn oed ysgol a phlant hyn).

C5 Dim sylw

C6 Oni ellir darparu darllediadau'r cynulliad drwy'r botwm coch?

C7 Dim sylw

·_·_·_·_·_·

Enw Mererid Mair Williams

C1 Ydw. Mae angen darpariaeth well o raglenni plant yn y Gymraeg. Gall plant wylio CBeebies a CBBC drwy'r dydd ond dim ond am gwpwl o oriau mae Planed Plant Bach a Planed Plant ar yr awyr. Byddai'n dda cael darpariaeth ar gyfer plant drwy'r dydd - nid o angenrheidrwydd iddynt ei wylio drwy'r dydd ond bo'r opsiwn o wylio rhaglenni Cymraeg yno pa fo angen.

C2 Ydw

C3 Na

C4 byddai'r oriau hyn yn dderbyniol

C5 Rhaglenni o safon uchel. Rhai yn addysgol eu naws ond rhai yn adloniant pur! Dylid sicrhau cyd-bwysedd rhwng y de a'r gogledd

C6 Byddai'n biti colli darlledu o'r cynulliad - ond a yw'r gynulleidfa 'plant' yn fwy ac yn gwneud mwy o synnwyr i gael sianel ychwanegol i blant a chadw S4C2 o'r cynulliad a'r eisteddfodau a.y.y.b

C7 Dim sylw

·_·_·_·_·_·

Enw Lisa Williams

C1 Ydw

C2 Nac ydw. Ddim yn si□r - ddim yn gwybod digon am ddarparwyr posib yn y maes ond yn awyddus i beidio â dilyn trywydd masnachol fel rhai darparwyr trwy gyfrwng y Saesneg.

C3 Papurau Bro?

C4 Da ar y cyfan ond fe fuaswn yn hoffi gweld mwy o oriau darlledu Meithrin ar ol 15.00 gan fod nifer o blant o dan 5 oed ond yn gorffen ysgol am 15.00-15.30. Ar ôl iddynt ddychwelyd o'r ysgol, does dim rhaglenni addas ar eu cyfer ar hyn o bryd trwy'r Gymraeg. Tan o leiaf 18.00 byddai'n well.

C5 Fe fyddai unrhyw oriau ychwanegol i blant meithrin yn well na beth sydd ar gael nawr i fod yn onest. Mae llawer o blant mewn Awdurdodau Addysg sy'n dechrau yn 3 oed llawn amser megis RCT yn colli mas achos fe ddarlledir Planed Plant Bach dim ond yn ystod yr awr ginio. Os nag oes rhieni yn prynu DVDs Cymraeg i'w plant, maent yn gorfod gwylio CBeebies/Nick Jr ac ati cyn mynd ac ar ôl dychwelyd o'r ysgol. Does dim pawb 'da SKY Plus/ na offer recordio rhaglenni. Felly, prynhawn Sadwrn yw'r unig gyfle mae rhai plant meithrin yn cael ar hyn o bryd i wylio rhaglenni Cymraeg a mae llawer o deuluoedd yn tueddu i fod allan ar penwythnos yn anffodus. Mae cael rhaglenni Meithrin yn y bore am 7am yn ystod y gwyliau yn fendith a dwi byth 'di gallu deall -os yn y gwyliau pam ddim yn ystod y tymor hefyd? Felly, yn fy marn i, rhaglenni Meithrin yn y bore rhwng 6.00 a 9.00, am awr rhywbryd amser cinio fel y mae e nawr ac yn y prynhawn rhwng 15.30-18.00. O leiaf wedyn, fe fyddai'r cyfle i bob plentyn o dan 5 wylio rhywfaint o deledu addas yn y Gymraeg.

C6 Opsiwn 2 yn bendant. Faint o bobl sy wir yn gwylio'r rhaglenni Cynulliad?- Mor ddiflas! Yn enwedig ar ôl y ffiasco diweddar! Mae digon o wleidyddiaeth ar y Newyddion/yn y papurau. Mae rhaglenni i blant Cymru yn bwysicach o lawer. Meddyliwch am y ffigyrau gwylio - faint o gynulleidfa byddai'n defnyddio'r sianel 'fwyaf? Plant yn gwylio eu rhaglenni nhw neu oedolion yn gwylio digwyddiadau'r Cynulliad? Ni fyddai Opsiwn 1 yn gweithio yn fy marn i - sut fuasech yn medru esbonio wrth blentyn fod ei hoff raglen ddim ar y teledu am dridiau gan fod materion

gwleidyddol yn cymryd blaenoriaeth?

C7 Plant Cymru yw dyfodol ein gwlad a'n hiaith. Mae dyletswydd arnom i ddarparu Gwasanaeth ehangach ac adeiladu ar lwyddiant Planed Plant Bach a Planed Plant, er mwyn sicrhau bod pob plentyn yn wlad yn cael yr un cyfle i wylio rhaglenni safonol yn y Gymraeg yn y bore, prynhawn a'r nos.

. _ . _ . _ . _ . _ .

Enw Manon Fflur Williams

C1. Ydw. Mae'r gwasanaeth/bloc hwn i blant yn eu harddegau yn GWBL ANGENRHEIDIOL yn fy marn i os ydym am gyfoethogi profiad cyfryngol ein Cymry Cymraeg ifanc. Dwi wedi gweld yr angen am y gwasanaeth hwn ers dyfodiad digidol! Mae cymaint o gystadleuaeth â'r sianeli eraill fel ei bod wedi mynd yn fater o 'raid' ac nid o ddewis bellach! Ewch ati rwan, wir! Mi faswn i'n licio gweld y cyfan yn ei le ymhell cyn i fy nwy ferch i gyrraedd eu harddegau!

C2. Dim sylw

C3. (Ydach chi'n golygu cynulleidfa arall a fedrai elwa o wasanaeth teledu ar eu cyfer yma?) Os ydych - gallai llawer mwy o oriau teledu ar gyfer plant cynradd fod o fudd iddynt hwythau hefyd, ond dw i'n sylweddoli bod angen blaenoriaethu oherwydd yr ystyriaethau cyllidebol!

C4. Yn ddelfrydol! Darlledu ar gyfer plant cyn oed ysgol drwy'r dydd o 7 y bore tan 3 y pnawn. (dw i'n gwybod o siarad â nifer o rieni eraill na fedran nhw fyw heb CBEEBIES!! - ac nad yw 1 awr o Blaned Plant Bach - er mor wych ydy'r awr honno - yn ddigonol o bell ffordd! - Mae canmoliaeth mawr o' mhrofiad i cofiwch i'r awr honno rhwng 12.30 - 1.30)
Darlledu ar gyfer plant cynradd rhwng 3 y pnawn tan 5 yr hwyr
Darlledu ar gyfer Plant uwchradd blynyddoedd 7 - 9 rhwng 5 - 7 yr hwyr
Darlledu ar gyfer plant uwchradd blynyddoedd 10 - 13 rhwng 7 - 9 yr hwyr
(Wrth gwrs, tydi rhieni ddim am i'w plant wylio GORMOD o deledu! - ond drwy ddarlledu yr holl oriau hyn - rhoi'r HYBLYGRWYDD I DDEWIS ORIAU GWYLIO i rieni/pobl ifanc Cymru y basa'i gwir fantais sianel o'i bath)

C5. HWYL! HWYL! HWYL! Mwynhau yn y Gymraeg a dim byd addysgiadol yn agos at yr arlwy! - (Oni bai ei fod yn cael ei gyflwyno mewn modd mor hwyliog, fel nad ydy'r plant yn sylweddoli bron mai pethau addysgol ydyn nhw!)

Mae lle i ambell raglen ddogfen ffeithiol/natur newyddiadurol mae'n si□ o bryd i'w gilydd i'r plant hynaf, ond mae angen rhoi'r pwyslais ar y sianel bob amser ar 'ddifyrru' i gadw diddordeb yr oedran hyn! Mae digon o addysgu yn digwydd yn yr ysgol drwy'r dydd! Mi fyddan nhw isio ymlacio gyda'r nos! Neu troi i sianel arall wnân nhw os nad yw'r arlwy yn un gyfoes ac yn bethau y medran nhw 'wir uniaethu' â hwy.

Mae'n werth buddsoddi amser i ymchwilio o ddifri cyn sefydlu arlwy'r plant hyn yn enwedig, er mwyn canfod beth yw'r materion sydd wir yn haeddu sylw o fewn eu 'slot' hwy. Basai'n golled i'r iaith i golli'r gynulleidfa darged hon!

Dw i'n teimlo hefyd fod 'na le hefyd i raglen wedi eu hanelu at y Cymry ail-iaith yn eu harddegau. Eto, mae angen apelio yma mewn ffordd hynod ddiddorol at y gynulleidfa hon, heb ar yr un pryd golli'r gwylwyr mamiaith! (is-deitlau! - neu ella rhywbeth fel opera sebon gyda chyfuniad o ddysgwyr + siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf ynddi? - ella rhywbeth fel 'Welsh in a Week' yn gosod sialens hwyliog/anturus i ddysgwyr yn eu harddegau yn hytrach nag oedolion?!)

C6. Dim sylw

C7. Dim sylw

. _ . _ . _ . _ . _ .

Enw Iwan Gwyn Williams

C1 Dim sylw

C2 Dim sylw

C3 Dim sylw

C4 Dim sylw

C5 Dim sylw

C6 Er bod trafodaethau'r Cynulliad yn ddiddorol, dylid rhoi'r flaenoriaeth yn sicr i ddarparu sianel Gymraeg i blant a phobl ifanc. Os nad oes digon o gyllid i gynnal y ddau beth - plant yn sicr ddylai gael y flaenoriaeth yn fy marn i. Apelio at gynulleidfa gyfyng y mae'r darllediadau o'r Cynulliad.

C7 Dim sylw

·_·_·_·_·_·

Enw Luned Williams

C1 Ydw

C2 Ydw

C3 Nac ydw

C4 Dim sylw

C5 Dim sylw

C6 Dim sylw

C7 Dim sylw

·_·_·_·_·_·

Enw Elin Wyn

C1 Ydw

C2 Ydw

C3 Na

C4 Dim sylw

C5 Dim sylw

C6 Rwy'n croesawu penderfyniad S4C i wneud cais i ddarparu sianel i blant ac yn dymuno yn dda i'r fenter newydd. Ond rwy'n siomedig bod y gwasanaeth newydd hwn yn cael ei gynnig, fe ymddengys, ar draul gwasanaeth darlledu'r Cynulliad sydd o bwysigrwydd mawr o ran dinasyddiaeth yng Nghymru.

Mae paragraff 3.3 yn y ddogfen ymgynghorol yn nodi nad gwasanaeth cyhoeddus mo'r gwasanaeth darlledu o'r Cynulliad ar S4C2. Mae hyn yn wir yn dechnegol ac yn gyfreithiol. Fe sefydlwyd y gwasanaeth fel sianel fasnachol yn haf 1999 er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei lansio mewn pryd ar ôl i'r Cynulliad Cenedlaethol gychwyn ar ei waith. Ond o ystyried pob diffiniad o nodweddion gwasanaeth cyhoeddus does dim dwywaith mai gwasanaeth cyhoeddus yw darlledu o'r

cynulliad ar S4C2. Mae'n wasanaeth na fyddai'r farchnad yn ei ddarparu ac mae'n wasanaeth sy'n cael ei ddarparu er lles cyhoeddus er mwyn cefnogi democratiaeth.

Mewn llyfryn ar ddarlledu seneddol yn y Gymanwlad dywed Torben Krogh, Cadeirydd Rhaglen Ryngwladol Datblygu Cyfathrebu UNESCO mai'r darlledwr cyhoeddus ddylai fod yn gyfrifol am ddarlledu seneddol:
"Live parliamentary broadcasts... provide an opportunity for the constituents to appraise the conduct of their elected representatives. No doubt, that such appraisal by electors is essential to develop effective and accountable representation in democratic governance. It also ensures the right of the people to receive a diversity of viewpoints on important political issues and the freedom to seek information on matters that directly affects them. Parliamentary broadcasts therefore falls squarely within the remit of the public broadcaster"

O'r tri opsiwn sy'n cael eu cyflwyno yn y ddogfen ymgynghorol parthed darlledu o'r Cynulliad mae'n ymddangos mai dim ond un sy'n dderbyniol, sef opsiwn 2. Mae'r ddogfen yn nodi nad yw opsiwn 3 yn bosibl ar hyn o bryd ac fe ddywedwyd yn glir mewn cyfarfod cyhoeddus y bum ynddo nad yw opsiwn 1 yn dderbyniol i'r Awdurdod chwaith. Mae'n ddirgelwch i fi pam nad oes opsiynau pellach yn cael eu cynnig.

Ym mharagraff 5 mae'r ddogfen yn rhoi ymrwymiad y bydd darllediadau estynedig o ddigwyddiadau cenedlaethol ar ofod sbâr S4C2 yn parhau naill ai drwy'r botwm coch neu ar sianel "S4C2". Os oes modd felly parhau i ddarparu'r gwasanaethau hyn ochr yn ochr â gwasanaeth plant, pam felly nad oes modd parhau i ddarparu gwasanaeth o'r Cynulliad, naill ai drwy fotwm coch neu ar S4C2, neu hyd yn oed drwy fotwm coch ar sianel S4C Digidol? Mae'r Eisteddfodau a'r Sioe Frenhinol yn digwydd pan fo'r Cynulliad ar wyliau felly ni fyddai gwrthdaro o ran blaenoriaethu. Mae'r gost o brynu gofod yn fater i'w ystyried, ond yn achos darlledu gweithgareddau'r Cynulliad deallaf na fyddai angen gofod mor llydan ag y byddai angen ar gyfer, dyweder, Eisteddfod yr Urdd lle mae 'na gryn dipyn o symud o fewn y sgrin.

Mae opsiwn 3 yn son am dalu am ofod ychwanegol a newydd ar gyfer y gwasanaeth plant di-dor ac nad yw hynny yn bosibl ar hyn o bryd heb arian ychwanegol. Oni fyddai'n rhatach talu am ofod ychwanegol ar gyfer darlledu'r Cynulliad? Ar hyn o bryd 3 diwrnod yr wythnos sy'n cael ei ddarlledu o 9am tan 6pm, am tua 35 wythnos y flwyddyn, er bod S4C yn talu am y gofod am 5 diwrnod bob wythnos o'r flwyddyn. O ran gwybod faint o ofod fyddai angen ei brynu ar gyfer darlledu'r Cynulliad mae dyddiadau'r tymhorau yn cael eu pennu o leiaf naw mis o flaenllaw ac i bob pwrpas yn dilyn tymhorau ysgol.

Y cwestiwn allweddol yw pwy fyddai'n talu am y gofod newydd yma? O dderbyn bod darlledu trafodion seneddol yn wasanaeth darlledu cyhoeddus, (beth bynnag am yr hyn sy'n cael ei ddweud ym mharagraff 3) ac o dderbyn mai darlledwyr cyhoeddus ddylai fod yn gyfrifol am y darlledu hyn, gellid dadlau'n gryf mai S4C a/neu'r BBC ddylai dalu am y gofod hyn fel rhan o'u hymrwymiad i ddarlledu cyhoeddus yng Nghymru. Hyd at haf 2005 roedd BBC Cymru ac S4C yn talu'r Cynulliad (drwy Gwmni Darlledu'r Cynulliad) am dderbyn lluniau a sain o drafodion y Cynulliad. Ers i'r Cynulliad benderfynu dosbarthu'r lluniau am ddim i bob darlledwr mae hyn wedi bod yn arbediad ariannol i'r BBC ac i S4C. Byddai defnyddio'r arian hwnnw yn gyfraniad at gostau talu am ofod ychwanegol, er mae'n debygol y byddai angen arian o ffynhonnell arall hefyd. Tybiaf mai mater i S4C a/neu'r BBC a/neu'r Adran Ddiwylliant (DCMS) fyddai canfod y cyllid ychwanegol hyn. Mae'n annhebyg iawn y byddai o werth i gwmni masnachol gyfrannu at gost prynu'r gofod.

Mae 'na ddadl wedi ei gwyntyllu bod y tirlun darlledu wedi trawsnewid ers 1999 ac nad oes angen bellach darparu gwasanaeth o'r Cynulliad ar sianel deledu ddigidol. Nid oedd gwe-ddarlledu o'r Cynulliad ar gael yn 1999, ac er bod y gwasanaeth yn cael ei gynnig bellach gan y Cynulliad, nid yw'r safon gystal ag y dylai fod, o'i gymharu, dyweder, â'r gwe-ddarlledu o Senedd yr Alban. Byddai rhoi'r gorau i ddarlledu'r Cynulliad ar sianel deledu yn gam mawr yn ôl a byddai dibynnu ar we-ddarlledu yn unig yn allgau carfan o'r boblogaeth na all dalu am fynediad i'r rhyngrwyd na'r offer sydd ei angen i wylio gwasanaeth ar y we. Byddai dibynnu ar we-ddarlledu yn unig, o ba bynnag ffynhonnell, yn golygu y byddai rhaid i ddinasyddion dalu am weld eu cynrychiolwyr etholedig wrth eu gwaith yn y Cynulliad - gwasanaeth a ddylai fod ar gael am ddim i bob dinesydd.

Yn 1999 roedd lansio gwasanaeth darlledu dwyieithog o'r Cynulliad ar S4C2 yn fenter arloesol a byddai rhai yn dadlau bod y fenter wedi cyflawni ei phwrpas erbyn hyn. Ond credaf y byddai rhoi'r gorau i ddarlledu o'r Cynulliad ar sianel deledu ddigidol yr adeg yma yn gamgymeriad mawr. Wrth i'r Cynulliad gael pwerau deddfu ychwanegol mae yna ddiddordeb cynyddol yn ei waith a gellid disgwyl y byddai mwy o ddiddordeb gan bobol i wylio'r trafodion ar S4C2. Yn ddiweddar fe dderbyniodd BBC Cymru dros 350 o awgrymiadau ar gyfer mesur i'w gyflwyno yn y Cynulliad. Mae hyn yn brawf o'r ddiddordeb cynyddol sydd yna yng ngwleidyddiaeth Cymru. Gyda'r drefn newydd o bwyllgor deisebau yn derbyn awgrymiadau gan y cyhoedd ar gyfer deddfwriaeth gellir rhagweld sawl achlysur yn codi pan fyddai pobl yn troi at ddarllediad y Cynulliad ar S4C2 am y tro cyntaf er mwyn gwylio hynt y mesur hwnnw. Mae hyn yn wasanaeth cyhoeddus yng ngwir ystyr yr ymadrodd ac yn un ddylai barhau ar deledu.

Os yw gwledydd megis Uganda a Trinidad a Tobago yn medru cynnal darlledu byw ar deledu o drafodion eu seneddau hwy siawns na all Cymru, gyda dwy sianel deledu gyhoeddus, fedru parhau i gynnal y gwasanaeth darlledu o'r Cynulliad.

C7 Dim sylw

. _ . _ . _ . _ . _ .